# Paratoi ystafelloedd llys a thribiwnlys ar gyfer achosion

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â pharatoi ystafelloedd llys a thribiwnlys ar gyfer achosion. Mae'n cynnwys sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'w defnyddio.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi ystafelloedd a fydd yn cael eu defnyddio a'r cyfleusterau sydd eu hangen, yn unol â gofynion sefydliadol 2. nodi'r rheiny sy'n debygol o fod yn bresennol yn yr ystafelloedd llys a thribiwnlys, yn unol â gofynion awdurdodaethol a sefydliadol 3. gwneud yn siŵr fod trefniadau seddau neu gyfleusterau ar waith, yn unol â gofynion awdurdodaethol a sefydliadol 4. gwneud yn siŵr fod ystafelloedd a chyfleusterau mewn cyflwr da, yn unol â gofynion sefydliadol 5. rhoi gwybod am gyfleusterau wedi'u difrodi a rhai diffygiol, yn unol â gofynion sefydliadol 6. trefnu bod nifer angenrheidiol y gwydrau a'r jygiau llawn dŵr ar gael 7. gwneud yn siŵr fod offer recordio yn barod i'w ddefnyddio, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion sefydliadol 8. penderfynu ble mae angen gwneud trefniadau arbennig, yn unol â gofynion sefydliadol 9. sicrhau bod offer a chyfleusterau perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer trefniadau arbennig, yn unol â gofynion sefydliadol 10. sicrhau bod ystafelloedd yn cael eu paratoi mewn pryd er mwyn gallu dechrau achosion yn brydlon, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol o ran paratoi ystafelloedd llys a thribiwnlys ar gyfer gwrandawiadau yn eich maes cyfrifoldeb  2. gosod seddau a chyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o wrandawiadau yn eich maes cyfrifoldeb  3. gyda phwy y dylid cysylltu i drefnu bod ystafelloedd yn cael eu gwirio  4. gyda phwy y dylid cysylltu i drefnu bod cyfleusterau'n cael eu cynnal a'u hatgyweirio  5. mathau o drefniadau arbennig   6. gweithdrefnau ar gyfer gwneud trefniadau arbennig

Paratoi ystafelloedd llys a thribiwnlys ar gyfer achosion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DC1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; ystafell gwrandawiad; achosion; cyfleusterau; gofynion |